# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

Dydd Mercher, 29 Mawrth 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.M. Jenkins (Cadeirydd)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L. James - Rheolwr y Gwasanaethau Tai
M. Hughes - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Room 72A, County Hall, Carmarthen - 10.05 - 10.25 am**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd dim buddiannau yn y cyfarfod.

## 2. LLOFNODI BOD COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD OEDD WEDI'I GYNNAL AR 9 MAWRTH 2017 YN GOFNOD CYWIR

**PENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2017 gan eu bod yn gywir.

## 3. NID YW'R ADRODDIAD HWN I'W GYHOEDDI

**PENDERFYNWYD** yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

## 4. DILEU ÔL-DDYLEDION CYN-DENANTIAID

***Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).***

***Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys data personol am gyn-denantiaid y cyngor, ynghyd â manylion am eu hôl-ddyledion rhent. Dywedwyd nad oedd cyfiawnhad dros gyhoeddi dyledion unigol, ac y byddai hynny'n anfanteisiol i hawliau a rhyddid yr unigolion perthnasol. Felly yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.***

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad oedd wedi ei lunio'n unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a oedd yn gofyn am ddileu dyledion o fwy na £1,500 gan gyn-denantiaid. Yr oedd y Polisi ynghylch Ôl-

ddyledion Cyn-denantiaid yn nodi'n glir y meini prawf yr oedd yn rhaid cydymffurfio â hwy wrth benderfynu a oedd yn annarbodus cymryd camau pellach er mwyn ceisio casglu dyled gan gyn-denant.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod yr Awdurdod wedi cyflwyno nifer o fentrau newydd i ddod o hyd i ôl-ddyledion a'u lleihau yn y dyfodol wrth gefnogi darpar denantiaid a thenantiaid newydd drwy ddarparu cyngor ariannol a chyllidebu iddynt.

**PENDERFYNWYD** dileu ôl-ddyledion y cyn-denantiaid, fel yr oeddid wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, am nad oedd modd eu hadennill.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**